



# Ymateb i Flaenoriaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau Awst 2016

## 1. Cyflwyniad

- 1.1. Mae Cyngor ar Bopeth Cymru yn croesawu'r cyfle i helpu i lywio rhaglen waith tymor canolig i dymor hwy ar gyfer Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystod y 5ed Cynulliad, yn enwedig y 12 i 18 mis nesaf.
- 1.2. Gofynnwn i'r Pwyllgor ystyried y canlynol fel rhan o'i raglen waith:
  - sut mae natur cyflogaeth yng Nghymru yn cyfrannu at dlodi mewn gwaith a'r hyn y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i liniaru hyn
  - heriau ac effaith taliadau annibyniaeth personol (PIP) i Gymru a'r hyn y gellir ei wneud i liniaru hyn
  - datganoli budd-daliadau lles heddiw ac yn y dyfodol
  - rôl gwybodaeth, cyngor ac arweiniad o ran cefnogi pobl unigol i gael mynediad at eu hawliau cywir a hwyluso atal canlyniadau niweidiol
  - Gweithrediad, llwyddiant a gorfodaeth cofrestru a thrwyddedu o fewn y sector rhentu preifat o dan Ran 1 Deddf Tai (Cymru) 2014
  - cyflwr ac ansawdd y stoc dai yng Nghymru
  - sut gall Llywodraeth Cymru gyflawni ei hamcanion cydraddoldeb strategol a chefnogi eraill i ymdrechu i wneud Cymru'n decach
- 1.3. Byddai Cyngor ar Bopeth Cymru yn croesawu'r cyfle i drafod unrhyw un o'r meysydd a godir yn y papur hwn gyda'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau.

# Argymhellion Cyngor ar Bopeth Cymru ar y rhaglen waith

## 2. Tlodi mewn gwaith

- 2.1. Ar draws Cymru, mae pobl yn dod â mwy o broblemau cyflogaeth a phroblemau budd-daliadau mewn gwaith at sylw Cyngor ar Bopeth, ac mae tlodi mewn gwaith ar gynydd. Mae hyn yn ffurfio rhan o'r darlun o natur newidiol dyled y gwelwn ni, gyda dyled defnyddwyr yn gostwng a dyled ar hanfodion, megis y Dreth Gyngor, rhent, a biliau cyfleustodau ar gynydd. Byddem yn croesawu pe bai'r Pwyllgor yn canolbwyntio ar sut mae natur cyflogaeth yng Nghymru yn cyfrannu at dlodi mewn gwaith a'r hyn y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i liniaru hyn. Mae natur cyflogaeth yng Nghymru i'r rheiny sy'n profi tlodi mewn gwaith yn cynnwys:
- lefelau uchel o waith afreolaidd a thymhorol
  - cyfraddau uchel o weithwyr rhan-amser
  - mynychter contractau dim oriau
  - cyflogau cyfartalog is yng Nghymru o'u cymharu â gweddill Prydain
  - problemau mewn perthynas ag ardaloedd gwledig a'r cymoedd
- 2.2. Mae Cyngor ar Bopeth wedi canfod tystiolaeth eang ar draws y DU fod llawer o bobl yn cael trafferth mewn 'swyddi ail ddewis'<sup>1</sup> megis y rhai a geir ar draws Cymru, sy'n ei gwneud yn fwy anodd i bobl gyllidebu neu reoli eu budd-daliadau a hawliadau credyd treth, tra hefyd yn ei gwneud yn aneglur beth yw eu hawliau yn y gwaith. Mae hyn yn golygu eu bod yn fwy agored i ddyled a gordaliadau/tandaliadau budd-dal, gan wneud eu cartrefi'n ansefydlog yn ariannol. Ar hyn o bryd nid yw'r system fudd-daliadau'n gallu cadw i fyny â'r newidiadau amser real ym mhatrymau gwaith llawer o bobl, gan arwain at ddryswch ar gymhwysra a derbyn y lefelau cywir o gymorth. Rydym yn gofyn i'r Pwyllgor ystyried sut gall budd-daliadau datganoledig a weinyddir yng Nghymru gefnogi pobl mewn gwaith anwadal yn well ac a allai hyn sicrhau arbedion cyhoeddus.
- 2.3. Yng Nghymru, canfu ein gwaith ymchwil diweddar i ôl-ddyledion y dreth gyngor<sup>2</sup> bod un o bob pump o'r rhai sydd ag ôl-ddyledion yn gweithio a'i fod yn bosibl bod natur cyflogaeth yng Nghymru (fel uchod) hefyd yn cyfrannu'n sylweddol at ôl-ddyledion y dreth gyngor. Mae newidiadau i ostyngiad y dreth gyngor (CTR) o ganlyniad i fod mewn ac allan o waith ond yn gwaethygu'r sefyllfa ariannol ansefydlog i lawer, yn aml yn arwain at oedi o ran gweithredu'r gostyngiad, neu fod yr hyn sy'n daladwy gan aelwyd yn newid yn gyson, gan arwain at ansicrwydd a dryswch am yr hyn sy'n ddyledus mewn gwirionedd (a chynyddu'r tebygolrwydd o fynd i ddyled).
- 2.4. Yn ogystal, rydym wedi gweld cynnydd sylweddol parhaus mewn problemau gwahaniaethu mewn perthynas â menywod mewn gwaith<sup>3</sup>, yn enwedig hawliau

<sup>1</sup> Gweler ein hadroddiad [Second Choice Jobs](#) yn 2015 sy'n archwilio effaith oriau anwadal ar fywydau pobl.

<sup>2</sup> Bydd yr adroddiad ar ôl-ddyledion y Dreth Gyngor yn cael ei lansio ar 21 Medi am 12:30 yn ystafell briffio'r cyfryngau yn y Senedd. Diolch i Jeremy Miles AC am noddi'r digwyddiad.

<sup>3</sup> Am fanylion pellach gweler ein gwaith diweddar ['Sharp practice: maternity rights'](#) sy'n archwilio triniaeth

mamolaeth. Gwelsom gynnydd 100% yn yr ymweliadau â'n [tudalennau cyngor ar wahaniaethu ar sail beichiogrwydd ar ein gwefan](#) yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a chynnydd o 58% yn nifer y problemau absenoldeb mamolaeth a ddaeth ger ein bron i dderbyn cymorth wyneb yn wyneb dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Byddai archwiliad o dlodi mewn gwaith a'r gwahaniaethau a briodolir i rywedd a nodweddion gwarchoddedig eraill yn helpu Llywodraeth Cymru i ddatblygu ymatebion priodol i'r heriau hyn.

2.5. Byddem yn croesawu pe bai'r Pwyllgor yn ystyried sut y gall Llywodraeth Cymru weithredu yn erbyn natur cyflogaeth sy'n creu tlodi mewn gwaith drwy:

- ddefnyddio budd-daliadau a threthi datganoledig (gan gynnwys datblygiadau tebygol yn y dyfodol)
- hyrwyddo swyddi o safon sy'n talu cyflog gweddus sy'n galluogi pobl i gynnal safon byw ofynnol
- gwella cyflogadwyedd a lefelau sgiliau pobl
- gwella mynediad at wasanaethau sy'n cefnogi pobl i mewn i waith, yn benodol rôl:
  - trafndiaeth gyhoeddus integredig
  - mynediad at ofal plant hyblyg o ansawdd da
- mynd i'r afael â gwahaniaethu yn y gweithle
- cefnogi pobl yng Nghymru i ddeall a chymhwyso eu hawliau yn y gwaith

### 3. Tlodi a diwygio lles

3.1. Rydym yn cytuno'n gryf y dylai'r Pwyllgor adolygu tlodi a diwygio lles yng ngoleuni newidiadau parhaus a newidiadau pellach yn ystod y tymor seneddol sydd i ddod. Fel y dengys ein [hadroddiad Tueddiadau Cyngor blynyddol](#), mae 4 o'r prif 5 problem a welwyd yng Nghymru yn ymwneud â budd-daliadau lles sydd bellach i gyfrif am 39% o'r holl broblemau a welwn. Yn ystod 2015 - 2016 fe wnaethom ni helpu 49,886 o bobl â 163,337 o broblemau a oedd yn gysylltiedig â budd-daliadau, cynnydd o 9% o'i gymharu â ffigurau'r llynedd. Yn gyffredinol, mae'r problemau mwyaf cyffredin a welwn yn parhau i ymwneud â pha fudd-daliadau y mae gan bobl hawl iddynt ac a ydynt yn gymwys i'w derbyn; gan roi cymorth i bobl sydd wedi profi newid yn eu hamgylchiadau neu helpu pobl i hawlio budd-dal neu reoli hawliad. Gyda'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA) a Thaliadau Annibyniaeth Personol (PIP) mae nifer fawr o'r problemau a welir hefyd yn ymwneud â herio penderfyniad neu wneud apêl, gan dynnu sylw at broblemau parhaus gyda'r budd-daliadau newydd hyn wrth iddynt gael eu hymgorffori i mewn i'r system les.

3.2. Oherwydd yr oedi parhaus gyda'r Credyd Cynhwysol (UC) byddem yn argymhell bod y

---

annheg a hawliau mamolaeth.

Pwyllgor yn canolbwyntio mwy ar heriau ac effaith y taliadau annibyniaeth personol (PIP) ar Gymru a'r hyn y gellir ei wneud i liniaru hyn ac ystyried datganoli budd-daliadau ochr yn ochr â'u hymchwiliad i fudd-dal tai. Fel rhan o waith y Pwyllgor ar dlodi a diwygio lles byddem hefyd yn croesawu pe bai'r pwyllgor yn ystyried rôl gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i gynorthwyo unigolion i hawlio'n gywir y budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt.

- 3.3. Dros y flwyddyn ddiwethaf, Taliadau Annibyniaeth Personol oedd y brif broblem y mae pobl yn gofyn am help gyda hi gan ein rhwydwaith, gyda chynnydd o 37% i 40,516 problem sy'n effeithio ar 14,175 o bobl ledled Cymru. Gofynnodd 1 o bob 6 o bobl oedd â phroblem gyda'u Taliadau Annibyniaeth Personol am help gydag apêl, a chynyddodd nifer y bobl a oedd yn ceisio help gydag apêl neu i herio penderfyniad (nid apêl) o fwy na 50% yn ystod 2015 i 2016, gan gynyddu o 2,100 i 3,477<sup>4</sup>. Hyd yn hyn, ar gyfartaledd mae cyfradd trosiant apeliadau a herio penderfyniadau canolfannau lleol Cyngor ar Bopeth yn 80%, sy'n dangos fod yna broblemau gyda'r broses o asesu a gwneud penderfyniadau.
- 3.4. Credwn fod angen craffu ar brosesau Taliadau Annibyniaeth Personol a'u heffaith ar les corfforol, meddyliol ac economaidd pobl er mwyn ymdrin â phroblemau gweithredu a sicrhau nad yw arian cyhoeddus yn cael ei wastraffu o ganlyniad i benderfyniadau amhriodol. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau a Capita yng Nghymru yn ogystal â gweithio'n ganolog gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau mewn perthynas â'r problemau a welwn a ffyrdd o fynd i'r afael â'r rhain, fel gwella hyfforddiant aseswyr ar iechyd meddwl a chyflyrau prin.
- 3.5. Gofynnwn i'r Pwyllgor ystyried sut gall budd-daliadau cyfredol a budd-daliadau datganoledig posibl yn y dyfodol gefnogi bwriad parhaus Llywodraeth Cymru i liniaru effaith diwygio lles a mynd i'r afael â thlodi yng Nghymru. Rydym yn gofyn am archwiliad o: sut a pha fudd-daliadau y gellid eu datganoli yn y dyfodol; pa adnoddau y byddai eu hangen; sut mae cyllidebau'n newid i adlewyrchu newidiadau mewn angen; a sut gellid eu gweinyddu mewn modd ymatebol i adlewyrchu natur newidiol gwaith er mwyn rhoi gwell cymorth i bobl yng Nghymru.
- 3.6. Datganolwyd y gronfa gymdeithasol gynt, y Gronfa Cymorth Dewisol (DAF) bellach, ynghyd â chymorth y dreth gyngor gyda gostyngiad o 10% a dim lle i gynnydd er gwaethaf unrhyw amrywiad mewn angen. Byddem yn croesawu pe bai'r Pwyllgor yn ystyried y cynlluniau a pha wersi a ddysgwyd yn sgil eu datganoli, a ffyrdd o wella'r weinyddiaeth bresennol yng ngoleuni penderfyniad disgwylidig Llywodraeth Cymru ynghylch eu dyfodol a chymhwyso'r hyn a ddysgwyd at unrhyw fudd-daliadau a ddatganolir yn y dyfodol.

---

<sup>4</sup> Am fanylion pellach ar effaith Taliadau Annibyniaeth Personol a budd-daliadau eraill a welwyd gan ein rhwydwaith yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, gweler ein [hadroddiad Tueddiadau Cyngor blynyddol](#).

#### **4. Craffu ôl-ddeddfwriaethol ar y drefn gofrestru a thrwyddedu newydd ar gyfer landlordiaid y sector rhentu preifat a osodir gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014: Rhan 1**

- 4.1. Yn ogystal â chraffu ar effaith y newidiadau i ddulliau o ymdrin â digartrefedd a gyflwynwyd gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014, byddem yn argymhell yn gryf bod y Pwyllgor yng nghanol 2017 yn ystyried gweithrediad, llwyddiant a gorfodaeth cofrestru a thrwyddedu o fewn y sector rhentu preifat o dan Ran 1 Deddf Tai (Cymru) 2014. Ar ôl 23 Tachwedd, 2016, rhaid i bob landlord sydd ag eiddo yng Nghymru fod wedi eu cofrestru, a rhaid i'r rhai sy'n rheoli eu heiddo ynghyd ag asiantau gosod eiddo sy'n gweithredu yng Nghymru fod wedi'u trwyddedu a'u hyfforddi'n briodol.
- 4.2. Byddai canolbwyntio ar weithrediad Rhan 1 yn eich galluogi i graffu ar y nifer o landlordiaid ac asiantau gosod sy'n cadw at y gyfraith newydd, yr effaith mae hyn wedi'i chael ar denantiaid yn y sector rhentu preifat, yn ogystal ag unrhyw gamau a gymerwyd gan yr awdurdod trwyddedu sengl a/neu'r awdurdodau lleol ledled Cymru i gynyddu cydymffurfiaeth. Byddwn yn monitro ei effaith trwy ein rhwydwaith i weld a yw'r duedd barhaus lle y mae tua thraean o'r holl broblemau tai a welwn yn ymwneud ag eiddo yn y sector rhentu preifat yn parhau, er mai dim ond tua 16% o'r stoc dai yng Nghymru sydd yn y sector hwnnw. Byddwn hefyd yn tynnu sylw at faterion o fewn y sector, megis gwaith atgyweirio a chynnal a chadw sy'n parhau i fod y broblem fwyaf sy'n wynebu pobl sy'n byw yn y sector rhentu preifat sy'n dod atom am gyngor a gwybodaeth<sup>5</sup>.

#### **5. Cyflwr tai**

- 5.1. Yn ogystal â'r gwaith arfaethedig gan y Pwyllgor ar y cyflenwad tai, credwn y byddai'n fuddiol i waith gael ei wneud ar gyflwr ac ansawdd y stoc dai gyfredol. Gallai hyn gael ei gynnwys o fewn y gwaith arfaethedig ar y cyflenwad tai, neu redeg ar wahân fel rhaglen waith ochr yn ochr â hi.
- 5.2. Credwn fod angen cyflawni'r gwaith hwn gan nad yw Llywodraeth Cymru wedi diweddarau ei gwaith na'i gwybodaeth sylfaenol ar gyflwr tai yng Nghymru ers yr [Arolwg cyflwr tai Cymru](#) diwethaf a gyhoeddwyd yn 2001 yn seiliedig ar ddata o 1998. O ystyried y rhaglen ddiwygio barhaus ar gyfer tai yng Nghymru, byddai sicrhau darlun cyfredol o gyflwr tai yng Nghymru yn helpu i sicrhau bod rhaglenni a lunnir i wella ac ehangu'r cyflenwad tai yn targedu eu hadnoddau'n effeithiol.

---

<sup>5</sup> Y 3 problem fwyaf yn y sector rhentu preifat ar gyfer y ddwy flynedd diwethaf yn olynol oedd: gwaith trwsio/cynnal a chadw ar yr eiddo (cynnydd o 7% i 753); rhenti a thaliadau eraill (gostyngiad o 6% i 528); a phroblemau diogelu blaendâl y denantiaeth (gostyngiad o 18% i 545). Am ragor o wybodaeth gweler ein [Tueddiadau Cyngor Blynyddol 2015 - 2016](#).

- 5.3. Rydym yn parhau i gefnogi'n gryf darparu rhaglenni wedi'u hariannu i ôl-osod effeithlonrwydd ynni ar gyfer aelwydydd mewn tloidi. Gydag Arbed yn cael ei ariannu yn rhannol drwy arian yr Undeb Ewropeaidd, a chydag ymgynghoriad ar waith ar gyfer cynllun i olynu Nest, mae'n amlwg bod rhywfaint o ansicrwydd ynghylch y cynlluniau presennol. Mae gennym rai pryderon ynglŷn â'r cyfeiriad a amlinellir yn yr ymgynghoriad ar Nest - yn fwyaf nodedig yng nghyswllt y newidiadau i'r meini prawf cymhwysedd. Byddwn yn ymateb yn llawn i'r ymgynghoriad a byddem yn hapus i rannu ein hymateb gerbron y pwyllgor ym mis Hydref.
- 5.4. Mae yna hefyd gyfle gwirioneddol i Gymru wella cyflwr tai yn y sector rhentu preifat o dan y rheoliadau addasrwydd i bobl fyw ynddynt sy'n deillio o'r Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 y gallai'r rhaglen waith hon helpu i'w llywio.

## **6. Cydraddoldeb a chydlyniant cymunedol yng Nghymru**

- 6.1. Fel yr amlygwyd yng nghyhoeddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (CCHD) [A yw Cymru'n decach?](#) mae yna nifer o heriau allweddol sy'n wynebu Cymru y bydd angen mynd i'r afael â nhw er mwyn gwneud Cymru'n wlad decach. Fel yr amlinellwyd yn 2.4, byddem yn croesawu pe bai'r Pwyllgor yn ystyried gwahaniaethu yn y gweithle yn ogystal ag effaith y refferendwm ym mis Mehefin ar Gymru.
- 6.2. Credwn fod canlyniad y refferendwm ym mis Mehefin, yn cynyddu'r her o wneud Cymru'n decach, oherwydd bod posibilrwydd o golli arian oddi wrth yr UE a oedd wedi'i dargedu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a hyrwyddo swyddi a thwf, yn ogystal â nifer cynyddol o achosion o droseddau casineb yn erbyn grwpiau lleiafrifol sy'n effeithio'n negyddol ar gydlyniant cymunedau. Gwelsom gynnydd sydyn mewn troseddau casineb tua adeg y refferendwm, ac o ganlyniad rydym yn monitro hyn yn ofalus ar lefel genedlaethol ac yn gweithio gyda'r rhwydwaith i ddeall beth mae hyn yn ei olygu i ymfudwyr a phobl ddu, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig sy'n byw yng Nghymru.
- 6.3. Yng ngoleuni hyn, byddem yn croesawu pe bai'r pwyllgor yn ystyried sut gall Llywodraeth Cymru gyflawni eu hamcanion cydraddoldeb strategol a chefnogi eraill i ymdrechu i wneud Cymru'n decach.

## Ynglŷn â Chyngor ar Bopeth Cymru

Mae Cyngor ar Bopeth yn elusen annibynnol sy'n cwmpasu Cymru a Lloegr. Mae'n gweithredu fel Cyngor ar Bopeth Cymru yng Nghymru ac mae ganddi swyddfeydd yng Nghaerdydd a'r Rhyl. Mae 19 o Ganolfannau Cyngor ar Bopeth yng Nghymru, pob un ohonynt yn aelodau o Gyngor ar Bopeth Cymru, ac yn darparu gwasanaethau o dros 375 o leoliadau.

Mae gan y gwasanaeth Cyngor ar Bopeth ddau nod:

- darparu'r cyngor sydd ei angen ar bobl ar gyfer y problemau a wynebant
- gwella'r polisïau a'r arferion sy'n effeithio ar fywydau pobl.

Mae'r cyngor a ddarperir gan y gwasanaeth Cyngor ar Bopeth yn rhad ac am ddim, yn annibynnol, â sicrwydd ansawdd, yn gyfrinachol a diduedd, ac mae ar gael i bawb beth bynnag fo'u hil, rhywedd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, oedran neu'u cenedligrwydd.

Mae gan y Gwasanaeth Cyngor ar Bopeth gyfrifoldebau dros gynrychioli defnyddwyr yng Nghymru yn sgil newidiadau Llywodraeth y DU ym maes defnyddwyr.<sup>6</sup> O 1af Ebrill 2014 mae'r cyfrifoldebau hyn yn cynnwys swyddogaethau statudol a chyfrifoldebau i gynrychioli defnyddwyr ynni a'r post.

### Am wybodaeth bellach neu unrhyw ymholiadau, cysylltwch ag:

Elle McNeil

Swyddog Polisi / Policy Officer

Cyngor ar Bopeth Cymru / Citizens Advice Cymru

[Elle.McNeil@CitizensAdvice.org.uk](mailto:Elle.McNeil@CitizensAdvice.org.uk) / [policy.cymru@CitizensAdvice.org.uk](mailto:policy.cymru@CitizensAdvice.org.uk)

---

<sup>6</sup> Ar 1 Ebrill 2013 trosglwyddwyd y cyfrifoldeb dros gynrychioli defnyddwyr o Lais Defnyddwyr at Wasanaeth Cyngor ar Bopeth (gan cynnwys Cyngor ar Bopeth Cymru) yn dilyn adolygiad Llywodraeth y DU o faes defnyddwyr. O 1 Ebrill 2014 mae hyn yn cynnwys swyddogaethau a chyfrifoldebau statudol i gynrychioli defnyddwyr post ac ynni.